sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Adolygiad o'r rheolau o ran amlygrwydd BBC Three

## Datganiad ar newidiadau i'r Cod EPG llinol

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Tachwedd 2021

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 3

2. Cefndir 4

# 1. Trosolwg

1.1 Heddiw, rydym wedi cymeradwyo ail-lansio BBC Three fel sianel ddarlledu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein penderfyniad y dylai'r sianel ddarlledu BBC Three gael ei lleoli o fewn 24 slot cyntaf Canllawiau Rhaglenni Electronig ('EPG') gan gynnwys y rhai ar Sky, Virgin Media O2, Freeview a Freesat.

1.2 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom i lunio, adolygu a diwygio Cod Ymarfer (y Cod EPG) ar gyfer darparwyr trwyddedig canllawiau teledu ar y sgrin – a elwir yn EPG. Mae hyn yn sicrhau ymhlith pethau eraill, y fath gyfradd o amlygrwydd y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol ar gyfer y sianeli gwasanaeth cyhoeddus (y sianeli 'dynodedig') – gan gynnwys Sianeli'r BBC – i sicrhau eu bod yn hawdd dod o hyd iddynt a'u gwylio. Yn dilyn adolygiad diweddar, daeth Cod EPG newydd i rym ym mis Ionawr 2021.

1.3 Bydd BBC Three yn mynd yn sianel ddynodedig o dan ddarpariaethau Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf'), ac felly mae'n rhaid i ni sicrhau lefel briodol o amlygrwydd i'r sianel o fewn EPGau pob darparwr trwyddedig.

1.4 Gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn ceisio barn rhanddeiliaid ar ein cynigion ym mis Medi 2021. Derbyniwyd chwe ymateb i'r ymgynghoriad: gan COBA ar ran darlledwyr masnachol; darparwyr EPG; a phartïon eraill â diddordeb. Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl safbwyntiau a thystiolaeth a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Yr hyn rydym wedi'i benderfynu - yn gryno

**Dylai BBC Three ymddangos o fewn 24 slot cyntaf y canllawiau rhaglenni electronig**. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, rydym wedi ystyried yr ystod o effeithiau posib ar gynulleidfaoedd, BBC Three, darparwyr EPG a darlledwyr eraill. Rydym wedi gosod pwyslais sylweddol ar y gwerth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd y byddai rhoi amlygrwydd i BBC Three yn ei gynhyrchu.

**Dylai darparwyr EPG gael uchafswm o 18 mis i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.** Rydym yn ystyried y bydd cyfnod gweithredu hirach yn rhoi digon o amser i ddarparwyr EPG a darlledwyr gynllunio a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol i sicrhau newid llyfn er budd cynulleidfaoedd. Efallai bod hyd y cyfnod gweithredu hwn olygu na wireddir manteision llawn ail-lansio'r sianel ar unwaith, ond mae 18 mis yn uchafswm cyfnod, a disgwyliwn y bydd modd i rai darparwyr EPG weithredu'r newidiadau hyn yn gynt.

1.5 Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, a'n sail resymegol drostynt, yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

## Dibenion y system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus a'r sail resymegol dros amlygrwydd

2.1 Sefydlwyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan Senedd y DU i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at deledu o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r DU yn ôl arni ei hun, yn dod â'r genedl at ei gilydd ar adegau allweddol, ac yn hysbysu ac yn addysgu cymdeithas. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod rhai mathau a genres o raglenni – efallai y byddai'r ddarpariaeth ohonynt yn llai da o gael eu gadael i'r farchnad yn unig – yn cael eu creu, er enghraifft cynnwys o'r DU ar y celfyddydau, crefydd ac i blant. Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael i bawb ac am ddim ar y pwynt defnyddio.

2.2 Mae dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('y Ddeddf')[1] sef darparu:

a) darparu rhaglenni teledu sy'n delio ag ystod eang o bynciau;

b) darparu ar gyfer yr ystod ehangaf bosib o gynulleidfaoedd, ar draws gwahanol adegau o'r dydd a thrwy wahanol fathau o raglenni; a

c) chynnal safonau uchel o ran gwneud rhaglenni.

2.3 Darperir darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd drwy nifer o wasanaethau: gwasanaethau cyhoeddus y BBC; gwasanaethau Channel 3 (ITV ac STV); Channel 4; S4C; a Channel 5. Mae'n ofynnol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hyn ddarparu, ar y cyd, cynnwys sy'n bodloni dibenion y gwasanaeth cyhoeddus yn ogystal â bodloni gofynion, cylchoedd gwaith neu ddyletswyddau sy'n benodol i ddarlledwyr unigol.

2.4 Mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus hefyd yn chwarae rhan bwysig fel comisiynwyr cynnwys newydd a gynhyrchir yn y DU. Mae eu buddsoddiad yn helpu i sicrhau bod rhaglenni'r DU yn parhau i fod ar gael i wylwyr, gan ddod ag amrywiaeth o fanteision unigol a chymdeithasol, a hefyd cynorthwyo cynaladwyedd hirdymor sector cynhyrchu teledu'r DU.

2.5 Mae gan Ofcom amrywiaeth o gyfrifoldebau rheoleiddio i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn diwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dim ond i sicrhau bod ystod o raglenni o safon yn cael eu gwneud a'u darparu, mae'n rhaid hefyd iddynt fod yn hawdd dod o hyd iddynt, i'w gwylio a'u mwynhau gan wylwyr. Mae Senedd y DU yn cydnabod pwysigrwydd rhwyddineb darganfod, a nod y drefn amlygrwydd yw helpu i sicrhau bod sianeli sy'n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr yn hawdd eu canfod ochr yn ochr â chefnogi cynaladwyedd y gwasanaethau hyn.[2]

[1] Nodir y dibenion hyn yn Adrannau 264(4) i (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003.
[2] Ofcom, Cod EPG, Trefn amlygrwydd.

## Y drefn amlygrwydd a'r Cod EPG

2.6 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau a dyletswyddau penodol i Ofcom mewn perthynas â rhoi amlygrwydd i 'sianeli dynodedig' mewn EPGau.[3] Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd i lunio ac o bryd i'w gilydd adolygu a diwygio Cod EPG sy'n rhoi arweiniad ynghylch yr arferion sydd i'w dilyn wrth ddarparu EPGau. Mae'n rhaid i'r Cod EPG gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr EPG roi'r fath raddau o amlygrwydd i sianeli dynodedig y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol.

2.7 Mae'r sianeli dynodedig sydd â hawl i amlygrwydd priodol hefyd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Y rhain yw:

a) holl sianeli'r BBC (gan gynnwys unrhyw sianeli sydd newydd eu lansio);

b) gwasanaethau Sianel 3 (gan gynnwys ITV ac STV);

c) Channel 4;

d) Channel 5;

e) S4C; a

f) sianeli teledu lleol.[4]

2.8 Mae ein Cod presennol yn dynodi slotiau penodol ar gyfer rhai sianeli dynodedig ac yn pennu isafswm lefelau o amlygrwydd ar gyfer sianeli dynodedig eraill.[5]

2.9 Mae'r gofynion amlygrwydd yn berthnasol dim ond i sianeli darlledu llinol yn unig ar hyn o bryd, ac nid i gynnwys a ddarperir ar-alw (er enghraifft drwy BBC iPlayer neu ITV Hub). Rydym wedi cyhoeddi argymhellion i ddiweddaru deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar-alw y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau i fod yn amlwg ac ar gael yn eang i gynulleidfaoedd ar lwyfannau teledu cysylltiedig.[6]

2.10 Mae'n rhaid i ddarparwyr EPG trwyddedig gydymffurfio â'r Cod EPG a byddant yn wynebu cosbau os nad ydynt yn cydymffurfio.[7] Y prif ddarparwyr EPG yw Freesat, Freeview, Sky a Virgin Media O2. Maent i gyd wedi cyhoeddi polisïau sy'n nodi eu hymagwedd at ddyrannu slotiau i sianeli dynodedig.[8]

---

[3] Wedi'i nodi yn Adrannau 310 a 311 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

[4] Adran 310(4) Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae gan sianeli teledu lleol hawl i amlygrwydd yn dilyn gwelliant a ddaeth i rym o 31 Ionawr 2012 drwy'r Gorchymyn Cod Ymarfer ar gyfer Canllawiau Rhaglenni Electronig (Ychwanegu Gwasanaethau Rhaglenni) 2011 ((SI 2011/3003).

[5] Ofcom, Cod EPG

[6] Ofcom, 15 Gorffennaf 2021, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Argymhellion i Lywodraeth y DU ar Ddyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus.

[7] Mae'r term 'darparwr EPG' yn golygu unrhyw sefydliad sy'n darparu canllaw rhaglen electronig fel y'i diffinnir gan adran 310 y Ddeddf Cyfathrebiadau

[8] Freesat, Freeview, Sky, Virgin Media O2.

## Diben y datganiad hwn

2.11 Lansiwyd BBC Three yn flaenorol fel sianel linol yn 2003 (ac roedd yn sianel ddynodedig â hawl i amlygrwydd). Yn 2016 fe gaeodd y BBC BBC Three fel sianel ddarlledu, gan symud i gynnig ei chynnwys ar-alw drwy BBC iPlayer.

2.12 Cyhoeddodd y BBC gynnig i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu linol ym mis Ionawr 2022. Gwnaethom ymgynghori ar wahân, fel rhan o asesiad cystadleuaeth ('BCA'), ar ein penderfyniad dros dro. Rydym wedi cadarnhau ein penderfyniad dros dro y dylid caniatáu i'r BBC ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ddarlledu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein penderfyniadau i gadarnhau ein cynigion i ddiweddaru'r Cod EPG i roi amlygrwydd i BBC Three o fewn y 24 slot cyntaf, ac i ganiatáu uchafswm cyfnod gweithredu o 18 mis i ddarparwyr EPG wneud hynny.

## Cynigion terfynol y BBC ar gyfer BBC Three

2.13 Mae'r BBC yn awr yn bwriadu ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ar 1 Chwefror 2022 i wella'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion cynulleidfaoedd 16-34 oed sy'n gwylio teledu darlledu ar sail wythnosol ond sy'n ddefnyddwyr ysgafn y BBC. Mae'r BBC yn ystyried bod y gwylwyr hyn yn tueddu i fod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd C2DE, yn byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr sydd â llai o fynediad i wasanaethau ar-alw.

2.14 Yn ogystal â bod yn ddull o ddosbarthu rhaglenni wedi'u hamserlennu i bobl ifanc, cred y BBC y byddai'r sianel yn rhoi trosol newydd iddynt "gynyddu ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o'r hyn sydd gan BBC iPlayer (a'r BBC) i'w gynnig" ymysg cynulleidfaoedd ifainc anos eu cyrraedd.[9]

2.15 Cynllun y BBC ar gyfer y sianel yw:

i) Oriau darlledu 7pm tan 4am bob dydd.

ii) Cyllideb cynnwys flynyddol o £72.5m. Nid oes cyllideb ychwanegol ar gyfer sianel ddarlledu arfaethedig BBC Three.[10]

iii) Cymysgedd o genres, gan gynnwys ffeithiol, adloniant, drama, materion cyfoes y DU a rhyngwladol, comedi, chwaraeon byw, cerddoriaeth fyw a ffilmiau.

iv) Bwletin newyddion i'w ddarlledu bob dydd yn ystod yr wythnos.

v) Cynyrchiadau gwreiddiol y BBC (h.y. rhaglenni a gomisiynir gan y BBC gan gynnwys darllediadau gwreiddiol ac ailddarllediadau) i gyfrif am 70% o'r oriau darlledu, gyda'r gweddill yn gaffaeliadau.

2.16 Fel rhan o'r cynnig, mae'r BBC hefyd wedi nodi'r canlynol:

---

[9] Sianel BBC Three newydd: Prawf Lles y Cyhoedd, 24 Mehefin 2021 (cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'BBC PIT').

[10] Yn ei Chynllun Blynyddol blaenorol ym mis Mai 2020, nododd y BBC, fel rhan o'i strategaeth i ddenu a chadw cynulleidfaoedd iau, y byddai'n buddsoddi 'mwy na dwbl' mewn cynnwys BBC Three erbyn 2022/23. Ym mis Mawrth 2021, fe ail-gadarnhaodd hyn yn ei Chynllun Blynyddol 2021/22.

i) Bydd BBC Three yn darlledu rhaglennu cyn y trothwy a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd 13-15 oed a 16-34 oed.

ii) Bydd dau draean o wariant BBC Three ar raglenni y tu allan i Lundain.

2.17 Mae'r BBC wedi cynnig y bydd y sianel BBC Three newydd ar gael ar y prif lwyfannau daearol, lloeren a chebl ym mhob un o wledydd y DU. Mae'r BBC yn bwriadu lansio'r sianel ar 1 Chwefror 2022 ym manylder safonol ('SD') a manylder uwch ('HD') ac eithrio yn Yr Alban lle defnyddir y capasiti HD ar gyfer sianel BBC Scotland ac yng Nghymru lle defnyddir y capasiti HD gan S4C. Ar bob llwyfan arall, byddai'r sianel yn lansio yn SD a HD.

2.18 I gynnwys BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol mae'r BBC yn bwriadu cyfyngu ar oriau gweithredu CBBC fel bod darllediadau'n dod i ben am 7pm yn lle 9pm.

2.19 Cynigiodd y BBC y dylai sianel newydd BBC Three ymddangos o fewn 24 slot uchaf y EPGau ac y dylai Ofcom hwyluso'r broses hon a'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr EPG weithredu hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib. Dywedodd y BBC hefyd, er mwyn helpu i leihau aflonyddwch, y byddai'n rhesymoli ei slotiau presennol i ryddhau slotiau ar gyfer y sianel newydd yn yr EPG lle bo hynny'n bosib. Esboniodd y gellir cyflawni hyn pe bai'r BBC yn llwyddo i lansio fersiynau HD o holl amrywiolion rhanbarthol BBC One a BBC Two. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen rhestriadau HD a SD amlwg ar y BBC mwyach ar gyfer BBC One a BBC Two yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar Sky a Virgin Media O2 ac ar draws y DU ar Freesat.[11] Mae'r tabl isod yn nodi slotiau EPG disgwyliedig y BBC pan fydd y BBC wedi rhesymoli ei slotiau.

**Tabl 1: Safleoedd EPG tybiedig ar gyfer BBC Three fesul gwlad**

| Darparwr EPG | Slot BBC3 newydd arfaethedig (2022/23) |
|---|---|
| **Sky** | 15 yn Lloegr/Gogledd Iwerddon; 24 yng Nghymru/Yr Alban |
| **Virgin Media O2** | 8 yn Lloegr/Gogledd Iwerddon; 24 yng Nghymru/Yr Alban |
| **Freeview** | 24 |
| **Freesat** | 10 |

## Asesiad o effaith

2.20 Mae asesiadau effaith, fel y'u diffinnir yn adran 7 y Ddeddf, yn ffordd werthfawr o asesu gwahanol opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam y ffafrir yr opsiwn arfaethedig. Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd drwy gydol y ddogfen ymgynghori (gan gynnwys yr

[11] Ar hyn o bryd, mae'r fersiwn SD o'r sianeli hyn yn ymddangos yn y slotiau a ddynodwyd ar eu cyfer (101 a 102) ac mae'r fersiwn HD yn ymddangos yn is i lawr yr EPG. Y rheswm am hyn yw nad yw'r fersiynau HD yn fersiynau llawn o'r fersiynau SD ac ni ddarlledir rhaglennu rhanbarthol (sydd mewn SD) ar y sianeli hyn. Pan fydd y fersiynau HD yn mynd yn fersiynau llawn o'r sianel SD, gallant ddisodli'r fersiynau SD yn slotiau 101 a 102, gan ryddhau'r slotiau a ddefnyddiwyd gan y fersiynau HD yn yr EPG. Ni fydd y fersiynau SD yn cael eu rhestru mwyach mewn safleoedd amlwg o fewn yr EPG.

atodiadau) yn darparu ein hasesiad o effaith ein cynigion ar randdeiliaid ac roedd yn gyfystyr ag asesiad effaith ar gyfer ein newidiadau arfaethedig i'r Cod EPG. Wrth gyrraedd ein penderfyniadau rydym wedi ystyried sylwadau a wnaed i ni ar yr asesiad effaith a diwygio ein dadansoddiad fel y bo'n briodol.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

2.21 Rydym yn asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac arferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir hyn yn asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (‘EIA’). Mae EIA hefyd yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr waeth beth fo'u cefndir neu eu hunaniaeth.

2.22 Bu i ni gynnwys EIA o'n cynigion yn Atodiad 2 ein dogfen ymgynghori. Rydym wedi ystyried effeithiau cydraddoldeb y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn awr, a nodi ein hasesiad yn Atodiad 3. Nid yw'n amlwg i ni fod canlyniad ein hadolygiad o'r Cod EPG yn debygol o gael unrhyw effaith benodol ar unrhyw bersonau sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd effaith unrhyw ganlyniad ar draul unrhyw grŵp mewn cymdeithas. Nid ydym ychwaith o'r farn bod angen cynnal EIA ar wahân mewn perthynas â chydraddoldeb o ran hil neu ryw neu â chynlluniau cydraddoldeb o dan Gynlluniau Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ac Anabledd.